COLEG
BARNWROL

# CARDIAU CYHOEDDIADAU - LLYS IEUENCTID

Diweddarwyd Hydref 2015

## Cynnwys

## Dedfrydu: 1


| | |
|---|---|
| Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | 1 |
| Gorchymyn ymddygiad troseddol | 2 |
| Gorchymyn cymorth unigol | 3 |
| Oedi dedfryd | 4 |
| Gorchymyn Cadw a Hyfforddi | 5 |
| Rhyddhad - diamod | 7 |
| Rhyddhad - amodol | 7 |
| Gwaharddiad – cyffredinol | 8 |
| Cyrsiau adsefydlu ar ôl yfed a gyrru | 9 |
| Gwaharddiad – interim | 10 |
| Gwaharddiad - nes pasio prawf | 11 |
| Cosbau ariannol (ieuenctid): | 13 |
| • Dirwyon | 13 |
| • Iawndal | 14 |
| • Costau | 14 |
| Ymrwymo Rhiant | 15 |
| Gorchymyn rhianta | 16 |
| Gorchymyn atgyfeirio | 17 |
| Atgyfeirio'n ôl i'r llys am beidio â chydymffurfio | 18a |
| Gorchymyn atgyfeirio - troseddau pellach | 18c |
| Gorchymyn atgyfeirio pellach (dewisol) | 18d |
| Gorchymyn gwneud iawn | 19 |
| Gorchymyn adsefydlu ieuenctid | 21 |
| Gofynion gorchymyn adsefydlu ieuenctid | 23 |
| Gorchymyn adsefydlu ieuenctid ynghyd â goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth dwys | 25 |
| Gorchymyn adsefydlu ieuenctid ynghyd â maethu | 27 |

# CYNNWYS

## Gohiriadau: 2


Caniatáu gohiriad 29
Gwrthod gohiriad 31
Gohirio ar gyfer cael adroddiad cyflym 33
Gohirio ar gyfer cael adroddiad safonol 34


Diweddarwyd Hydref 2015

## Mechnïaeth a Remand: 3


Mechnïaeth ddiamod 35
Mechnïaeth amodol 37
Remandio i lety awdurdod lleol (RLALl) 39
RLALl (troseddau neillffordd/ditiadwy yn unig) 41
RLALl (troseddau carchar diannod) 43
RLALl (troseddau digarchar) 45
Remandio i lety cadw pobl ifanc: 47
• Set gyntaf o amodau 47
• Ail set o amodau 48
Remandio i lety cadw pobl ifanc Set 1af o amodau (troseddau neillffordd/ditiadwy yn unig) 49
Remandio i lety cadw pobl ifanc 2il set o amodau (troseddau neillffordd/ditiadwy yn unig) 51
Remandio i lety cadw pobl ifanc Set 1af o amodau (pobl ifanc 12-17 oed, troseddau carchar diannod) 53
Remandio i lety cadw pobl ifanc 2il set o amodau (pobl ifanc 12-17 oed, troseddau carchar diannod) 55

# CYNNWYS

Diweddarwyd Hydref 2015

## Achosion i'w gwrando yn Llys y Goron: 4


Anfon i sefyll prawf 57

Penderfyniad trosedd difrifol (pobl ifanc 10-11 oed a phobl ifanc 12-14 oed nad ydynt yn droseddwyr mynych) - Anfon i dreial 59

Penderfyniad trosedd difrifol (pobl ifanc 12-14 oed sy'n droseddwyr mynych a phobl ifanc 15-17 oed) – Anfon i dreial 60

Penderfyniad trosedd difrifol (pobl ifanc 10-11 oed a phobl ifanc 12-14 oed nad ydynt yn droseddwyr mynych) - Traddodi ar gyfer dedfryd 61

Penderfyniad trosedd difrifol (pobl ifanc 12-14 oed sy'n droseddwyr mynych a phobl ifanc 15-17 oed) – traddodi ar gyfer dedfryd 62

Troseddwyr peryglus – anfon i dreial 63

Troseddwyr peryglus – Traddodi ar gyfer dedfryd 64


Diweddarwyd Hydref 2015

## Amrywiol: 5


Cyfyngiadau adrodd yn ôl ar gyfer plant a phobl ifanc mewn achosion di-droseddol 65

Cyfyngiadau adrodd yn ôl am oes ar gyfer dioddefwyr a thystion o dan 18 oed 66

Codi cyfyngiadau adrodd 67

## Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**Rydym yn gwneud gwaharddeb ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr achos hwn am ………… blynedd. [nes gwneir gorchymyn pellach]**

**Dyfarnwn eich bod wedi ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol a bod angen gwarchod pobl rhag mwy o weithredoedd gwrthgymdeithasol gennych chi.**

**Rydym yn credu hyn oherwydd …………………………………..**

**Tra byddwch dan y gorchymyn hwn, rhaid ichi beidio â:**

[Noder y gweithredoedd gwaharddedig a hyd bob gwaharddiad.]

**Os byddwch yn gwneud unrhyw rai o'r pethau hyn, byddwch yn cyflawni trosedd difrifol a gallech gael eich anfon i'r ddalfa.**

[Lle bo hynny'n briodol.] **Rydym yn atodi hawl i arestio am y canlynol:**
[Nodwch yr amodau y mae'r hawl i arestio yn berthnasol iddynt.]

**Tra rydych dan y gorchymyn hwn mae'n rhaid i chi:**
[Nodwch y gofynion, y sawl sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth a hyd bob gofyniad.]

**Os na fyddwch yn bodloni'r gofynion hyn efallai y cewch eich anfon i'r ddalfa.**

**Ydych chi'n deall?**

**Rhaid i chi aros i gael copi o'r gorchymyn cyn i chi adael adeilad y llys.**

## Gorchymyn ymddygiad troseddol

**Rydym yn gwneud gorchymyn ymddygiad troseddol yn yr achos hwn am gyfnod o [.......... blynedd] [nes gwneir gorchymyn pellach].**

**Rydym yn dyfarnu eich bod wedi cymryd rhan mewn ymddygiad sydd wedi achosi, neu'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod ac y bydd gwneud gorchymyn yn helpu i'ch rhwystro rhag ymddwyn fel hyn.**

**Rydym yn credu hyn oherwydd ........................................**

**Tra rydych dan y gorchymyn hwn, ni chewch wneud y canlynol:**
[Nodwch y gweithredoedd gwaharddedig a hyd bob gwaharddiad.]

**Mae'n rhaid i chi fodloni'r gofynion canlynol:**
[Nodwch y gofynion, y sawl sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth ac am ba hyd.]

**Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gorchymyn hwn byddwch yn cyflawni trosedd difrifol ac efallai y cewch eich anfon i'r ddalfa.**

**Ydych chi'n deall?**

**Rhaid i chi aros i gael copi o'r gorchymyn cyn i chi adael adeilad y llys.**

## Gorchymyn cymorth unigol

**Rydym hefyd yn gwneud gorchymyn cymorth unigol am gyfnod o ………….. mis** (uchafswm o 6) **oherwydd dylai hyn eich helpu i beidio ag ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol yn y dyfodol.**

**Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i chi ………………**
[Eglurwch y gofynion fel y'u hamlinellwyd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc.]

**Rhaid i chi wneud beth mae swyddog y Tîm Troseddwyr Ifanc yn ddweud wrthych ei wneud. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd yn rhaid i chi ddod yn ôl i'r llys ac y cewch eich dirwyo, neu y bydd y llys yn delio â chi mewn rhyw ffordd arall.**

**Gallwch chi neu eich swyddog wneud cais i'r llys am adolygu'r gorchymyn hwn.**

# Dedfrydu

## Oedi dedfryd

**Nid ydym yn bwriadu eich dedfrydu chi heddiw, ond byddwn yn gwneud hynny ar ………………… Rydym yn gwneud hyn er mwyn adolygu eich ymddygiad rhwng yn awr a bryd hynny.**

**Ar hyn o bryd rydym yn ystyried eich dedfrydu i ………………………….. ond os nad ydych yn cyflawni unrhyw droseddau eraill yn ystod y cyfnod hwn ac yn cwblhau'r gofynion canlynol, gallem roi dedfryd lai i chi.**

**Y gofynion y mae'n rhaid i chi eu bodloni yw ……………………………**

**Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, neu os byddwch yn cyflawni trosedd arall yn ystod y cyfnod hwn, efallai y bydd yn rhaid i chi ddod yn ôl i'r llys ynghynt ac y dedfrydir chi am drosedd[au] heddiw ac unrhyw droseddau eraill.**

**Bydd un o swyddogion y Tîm Troseddwyr Ifanc yn ysgrifennu adroddiad cyn i chi gael eich dedfrydu ac mae'n rhaid i chi gydweithredu â'r swyddog.**

**Ydych chi'n deall?**

**Ydych chi'n cytuno i'r llwybr gweithredu hwn?**

**Rhaid i chi beidio â gadael adeilad y llys tan y byddwch wedi cael copi o'r gorchymyn.**

## Gorchymyn Cadw a Hyfforddi

- Ar gael i blant a phobl ifanc rhwng 12 ac 17 oed. Os yw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn 12 - 14 oed, ni ellir ond gwneud y gorchymyn os yw'n droseddwr mynych.
- Cyfnodau penodol o 4, 6, 8, 10, 12, 18 neu 24 mis (nid oes yn rhaid i orchmynion cydolynol fod am gyfanswm y cyfnodau hyn).
- Rhaid ystyried adroddiad cyn-dedfrydu ysgrifenedig.
- Rhaid i'r trosedd(au) fod **mor ddifrifol** fel mai dedfryd dan glo yw'r unig gosb briodol. Mae angen rhoi rhesymau pam na ellir cyfiawnhau Gorchymyn Adsefydlu Pobl Ifanc ynghyd â goruchwyliaeth a gwyliadwraeth ddwys/maethu.

**Am y trosedd(au) rydym yn gwneud gorchymyn cadw a hyfforddi am gyfnod o ………………… mis.**

[Lle ceir mwy nag un trosedd, nodwch a ydynt yn gydredol neu'n gydolynol.]

1. **Rydym yn credu bod hyn yn angenrheidiol oherwydd bod y trosedd(au) mor ddifrifol fel mai cadw dan glo yw'r unig ddewis oherwydd ………….**

[Defnyddiwch eich ffurflen ddedfrydu i nodi eich rhesymau, gan gynnwys:
- Eich asesiad o'r amgylchiadau gwaethygol neu liniarol sy'n pennu lefel y beiusrwydd a maint y niwed a achoswyd (trosedd).
- Lliniariad personol (troseddwr) y plentyn neu'r unigolyn ifanc.]

**Rydym wedi lleihau'ch dedfryd oherwydd eich bod wedi pledio'n euog. Pe na baech wedi gwneud hynny, byddem wedi rhoi dedfryd o ……………………………… i chi**

**Ni allwn gyfiawnhau rhoi gorchymyn adsefydlu ieuenctid gyda goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth dwys neu faethu oherwydd ……………**

[neu]

2. **Dyfarnwn eich bod wedi torri eich gorchmynion adsefydlu ieuenctid yn fwriadol ac yn gyson drwy** [rhowch fanylion]**. Mae'r llys yn awr wedi penderfynu nad oes ganddo unrhyw ddewis arall ond rhoi dedfryd o garchar a fydd am gyfnod o ……….. mis.**

[Lle y bo hynny'n briodol.] **Rydym wedi ystyried y ffaith eich bod wedi cydymffurfio â rhai o ofynion eich gorchymyn.**

**Wrth benderfynu fod hyd y ddedfryd hon yn briodol rydym wedi ystyried y ffaith eich bod wedi treulio ……… diwrnod/wythnos ar remand.**

[Os bydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi cael ei remandio yn y ddalfa neu ar gyrffyw gyda thag am fwy na 9 awr y dydd, bydd eich cynghorydd cyfreithiol yn cyfrifo faint o ddyddiau/wythnosau y dylid eu hystyried.]

**Fel arfer, cewch eich rhyddhau ar ôl i chi fwrw hanner eich dedfryd. Cewch wybod beth ddylech ei wneud pan gewch eich rhyddhau. Os na fyddwch yn gwneud yr hyn y dywedir wrthych am ei wneud, byddwch yn cael eich dwyn yn ôl gerbron y llys a gallech gael eich dirwyo neu eich anfon yn ôl i'r ddalfa.**

**Ydych chi'n deall?**

[Ystyriwch unrhyw orchmynion ategol.]

**Rhaid i chi hefyd dalu gordal o £…… Defnyddir yr arian hwn i ariannu gwasanaethau i ddioddefwyr**

## Rhyddhad - diamod

**Am y trosedd(au) o …………………. rydym yn rhoi dedfryd o ryddhad diamod. Er eich bod yn euog o'r trosedd(au), nid ydym yn meddwl bod angen eich cosbi oherwydd …………… ond cedwir cofnod o'ch euogfarn.**

**Ydych chi'n deall?**

## Rhyddhad - amodol

**Am y trosedd(au) o …………………. rydym yn rhoi rhyddhad amodol am ………… mis/ blynedd oherwydd ……….. Nid ydych yn cael eich cosbi heddiw. Ond os byddwch yn cyflawni unrhyw drosedd arall yn ystod y ……………… mis/blynedd nesaf, gallech gael eich cosbi am drosedd(au) heddiw yn ogystal ag am y trosedd newydd.**

[Lle bo hynny'n briodol.] **Rydym wedi lleihau'ch dedfryd oherwydd eich bod wedi pledio'n euog. Pe na baech wedi gwneud hynny, byddem wedi rhoi dedfryd o ….. i chi**

**Ydych chi'n deall?**

[Ystyriwch unrhyw orchmynion ategol.]

**Rhaid i chi hefyd dalu gordal o £…... Defnyddir yr arian hwn i ariannu gwasanaethau i ddioddefwyr**

## Gwaharddiad – cyffredinol

[Mae hyn yn cymryd bod manylion trosedd(au) unigol a chyfansymio eisoes wedi'u rhoi.]

**Rydych wedi'ch gwahardd rhag gyrru am …………………. diwrnod/wythnos/mis/blynedd. Mae hyn yn golygu na chewch yrru unrhyw gerbyd modur ar ffordd neu mewn lle cyhoeddus o'r munud hwn hyd ddiwedd cyfnod y gwaharddiad. Os byddwch yn gyrru tra dan waharddiad, byddwch yn cyflawni trosedd difrifol a gallech gael eich anfon i'r ddalfa a'ch gwahardd eto.**

[Lle bo hynny'n briodol, i unigolion 16 ac 17 oed.] Os yw'r cyfnod gwahardd yn 56 diwrnod neu fwy - **Rhaid i chi wneud cais i'r DVLA am drwydded cerdyn-llun newydd os ydych chi'n dymuno gyrru ar ôl i'r gwaharddiad ddod i ben. Ni ddylech yrru nes eich bod wedi cael eich trwydded cerdyn-llun newydd.** [Pan nad oes trwydded cerdyn-llun wedi'i hildio i'r llys] **Nid yw eich trwydded cerdyn-llun yn ddilys bellach, a rhaid i chi ei hanfon at y DVLA.**

[Lle bo hynny'n briodol, i unigolion 16 ac 17 oed.] Os yw'r cyfnod gwahardd yn 55 diwrnod neu lai - **Caiff y gwaharddiad ei nodi ar eich cofnod gyrru DVLA. Nid oes angen i chi ildio eich trwydded cerdyn-llun, ond ni fydd yn ddilys nes i'r gwaharddiad ddod i ben.**

[Os rhoddir dedfryd o garchar yn syth] - **Rhoddir estyniad ar y cyfnod gwahardd i ystyried y ddedfryd o garchar a roddir.**

**Ydych chi'n deall?**

## Cyrsiau adsefydlu ar ôl troseddau yfed a gyrru (pobl ifanc 17 oed yn unig)

**Rydym yn cynnig y cyfle i chi leihau cyfnod eich gwaharddiad o .................. wythnos drwy gwblhau'n llwyddiannus cwrs adsefydlu ar ôl yfed a gyrru erbyn ..................**

**Bydd y cwrs yn para am o leiaf 16 awr a hynny dros gyfnod o nifer o ddyddiau. Bydd yn rhaid i chi dalu cost y cwrs.**

**Os ydych am gael y cyfle i leihau eich gwaharddiad, rhaid i chi ddweud wrthym yn awr. Ni allwn ei gynnig i chi yn hwyrach ymlaen. Nid ydych yn cael eich gorfodi i fynychu'r cwrs ond os nad ydych yn ei fynychu a'i gwblhau, a hynny hyd lefel y mae trefnwyr y cwrs yn fodlon arni, bydd yn rhaid i chi gwblhau holl gyfnod y gwaharddiad.**

**Ydych chi'n cytuno i ddilyn y cwrs?**

## Gwaharddiad – interim

**Am y trosedd(au) o .................. rydym yn rhoi dedfryd o waharddiad interim. Bydd y cyfnod hwn yn dechrau yn awr ac yn para am gyfnod o chwe mis neu tan y cewch eich dedfrydu, pa bynnag un a fydd yn digwydd gyntaf. Pan gewch eich dedfrydu, cewch wybod am ba hyd yn union y bydd eich gwaharddiad mewn grym. Bydd y gwaharddiad a roddir heddiw yn cyfrif tuag at unrhyw waharddiad terfynol y gellid ei osod.**

**Ni chewch yrru unrhyw gerbyd modur ar ffordd neu mewn lle cyhoeddus o'r munud hwn ymlaen. Os byddwch yn gyrru tra dan waharddiad, byddwch yn cyflawni trosedd difrifol a gallech gael eich anfon i garchar a'ch gwahardd eto.**

**Ydych chi'n deall?**

## Gwaharddiad - nes pasio prawf

**Rydych hefyd wedi'ch gwahardd nes y byddwch yn cymryd [prawf gyrru] [prawf gyrru estynedig]. Mae hyn yn golygu, unwaith y daw cyfnod y gwaharddiad i ben, byddwch yn gallu gwneud cais am drwydded dros dro yn unig. Pan fyddwch yn gyrru dan drwydded dros dro, rhaid i chi gael eich goruchwylio gan yrrwr cymwys a rhaid i chi arddangos platiau L (neu blatiau D yng Nghymru) ar eich cerbyd. Os nad ydych yn gwneud hynny, byddwch yn cyflawni trosedd o yrru dan waharddiad.**

# Cosbau ariannol (ieuenctid)

## Dirwyon

- Ar gyfer plant 10-13 oed, yr uchafswm yw £250.
- Ar gyfer pobl ifanc 14-17 oed, yr uchafswm yw £1,000.
- Os yw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc dan 16 oed, mae'n ddyletswydd ar y llys i orchymyn i'r rhiant neu'r gwarcheidwad dalu oni bai:
  - nad yw'n bosibl dod o hyd i'r rhiant neu'r gwarcheidwad, neu
  - y byddai'n afresymol gwneud hynny, o ystyried holl amgylchiadau'r achos.
- Os yw'r unigolyn ifanc yn 16 oed neu hŷn, mae'r ddyletswydd hon yn dod yn ddisgresiwn.

**Am y trosedd o …………………………... rydym yn eich dirwyo £……..** [Ailadroddwch fel bo angen.]

[Lle bo hynny'n briodol.] **Rydym wedi lleihau'ch dedfryd oherwydd eich bod wedi pledio'n euog. Pe na baech wedi gwneud hynny, byddem wedi rhoi dedfryd o ………………….. i chi**

**Ein rhesymau yw …………………………………….**

**Rhaid i chi hefyd dalu gordal o £...... Defnyddir yr arian hwn i ariannu gwasanaethau i ddioddefwyr.**

## Iawndal

**Am y trosedd o ……………………………. rydym yn eich gorchymyn i dalu £…….. o iawndal am yr [anaf][difrod][colled] a achoswyd i …………… [Ailadroddwch fel bo'r angen.]**

**Ein rhesymau yw …………………………………………………….**

## Costau

**Rhaid i chi dalu £………… tuag at gostau'r erlyniad.**

### Ym mhob achos

**Mae gennych gyfanswm o £………… i dalu. Mae hwn yn ddyledus yn awr. Ydych chi'n gallu ei dalu'n llawn heddiw?**

### Os gorchmynnir rhiant/gwarcheidwad i dalu

**Rydym yn gwneud gorchymyn casglu, sy'n golygu y bydd swyddog dirwyon yn gwneud yn siŵr y telir y swm yn unol â'r gorchymyn ac yn egluro i chi sut y dylid ei dalu. Rhaid i chi dalu ar y diwrnod/dyddiau y'ch gorchmynnir i wneud hynny a rhaid i chi roi gwybod i'r swyddog dirwyon am unrhyw newid yn eich amgylchiadau ariannol neu eich cyfeiriad.** [Nodwch y rhesymau os na wneir gorchymyn casglu.]

**Os na fyddwch chi'n gwneud y taliadau fel y'ch gorchmynnir, byddwch yn cael eich galw yn ôl i'r llys a gallech gael eich anfon i garchar.**

**Ydych chi'n deall?**

## Ymrwymo Rhiant

**Rydym yn ystyried eich ymrwymo i:**

- **sicrhau eich bod yn gofalu'n briodol am, ac yn arfer rheolaeth dros …….** [nodwch enw'r troseddwr]
- [lle bo hynny'n briodol] **a sicrhau [ei fod ef] [ei bod hi] yn cydymffurfio â'r ddedfryd gymunedol a bennwyd gennym heddiw.**

**Mae hyn yn golygu, os na fyddwch:**

- **yn sicrhau eich bod yn gofalu'n briodol am, ac yn arfer rheolaeth [drosto ef] [drosti hi]**
- [lle bo hynny'n briodol] **a sicrhau [ei fod ef] [ei bod hi] yn cydymffurfio â'r ddedfryd gymunedol,**

**efallai y bydd yn rhaid i chi dalu arian i'r llys.**

**Byddwn yn penderfynu faint ac am ba hyd y byddwch wedi'ch ymrwymo, ar ôl inni glywed beth sydd gennych i'w ddweud.**

**Ydych chi eisiau dweud rhywbeth am y cynnig hwn neu am eich amgylchiadau ariannol?**

**Byddwch yn cael eich ymrwymo am y swm o £…… am gyfnod o …….**

## Gorchymyn rhianta

**Rydym am wneud gorchymyn rhianta am gyfnod o ……….. [nodwch am ba hyd] er mwyn atal ….. [noder yr enw] rhag:**

- **cyflawni trosedd pellach,** [ac/neu]
- **ailadrodd y math o ymddygiad a arweiniodd at wneud y gorchymyn ……………...**

**Bydd y gorchymyn hwn yn eich helpu i ddarparu'r gofal, yr amddiffyniad a'r gefnogaeth briodol i gyflawni hyn.**

**Y swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc fydd ….. [noder yr enw].**

**Bydd y gorchymyn yn para am ………. mis.**

**Rhaid i chi fynychu sesiynau [cynghori] [cyfarwyddo] yn unol â chyfarwyddyd ….. [nodwch yr enw] am gyfnod o ……... [noder am ba hyd].**

[Lle bo hynny'n briodol.] **Yn ogystal, disgwylir i chi ……..… [nodwch y manylion].**

**Gallwch chi neu'r swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc wneud cais i'r llys am adolygu'r gorchymyn ar unrhyw adeg.**

**Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gorchymyn hwn, efallai y byddwch wedi cyflawni trosedd y gellir ei gosbi â dirwy o hyd at £1,000.**

## Gorchymyn atgyfeirio

- Ar gael ar gyfer pob unigolyn ifanc.
- **Rhaid** rhoi gorchymyn atgyfeirio yng nghyswllt bob unigolyn ifanc sydd **heb gael ei euogfarnu o'r blaen** ac **sy'n pledio'n euog** i unrhyw drosedd carcharol, oni bai bod y llys yn ystyried dedfryd o ryddhad diamod, **rhyddhad amodol, gorchymyn dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu ddedfryd o gadw dan glo.** Nid yw gorchmynion ymrwymo a rhyddhad (diamod neu amodol) blaenorol yn euogfarnau blaenorol i'r diben hwn, felly nid ydynt yn cael unrhyw effaith ar y darpariaethau gorchymyn atgyfeirio gorfodol.
- **Gellir** rhoi gorchymyn atgyfeirio pan fo unigolyn ifanc wedi pledio'n euog i o leiaf un o'r troseddau sydd gerbron y llys ar gyfer dedfryd, waeth beth yw'r euogfarnau blaenorol.
- Rhaid i hyd y gorchymyn fod am dri mis o leiaf ac am 12 mis ar y mwyaf.
- Mae'r gorchymyn mewn grym o'r dyddiad y mae'r contract yn cael ei lofnodi (nid dyddiad y llys).
- **Rhaid** i'r llys orchymyn rhiant/gwarcheidwad i fynychu cyfarfodydd y Panel Troseddwyr Ifanc yng nghyswllt unigolyn ifanc rhwng 10 a 15 oed, a **gall** orchymyn bod y rhiant yn bresennol yng nghyswllt unigolion ifanc rhwng 16 ac 17 oed. Gall peidio â mynychu cyfarfod o'r panel arwain at ddwyn y rhiant yn ôl gerbron y llys.

**Am y trosedd(au) o …………………….. rydym yn gwneud gorchymyn atgyfeirio am gyfnod o ……….mis. Mae hyn oherwydd ………………………………………**

**Byddwch yn cwrdd â phanel o bobl sydd yno i'ch helpu. Gallwch siarad â nhw amdanoch chi'ch hun a'ch troseddu .............** [rhowch fanylion]

**Byddant hwy wedyn yn gofyn i chi gytuno i gontract a fydd yn cynnwys gweithgareddau i'ch atal rhag troseddu eto ac yn gofyn i chi ei lofnodi. Bydd y gorchymyn yn dechrau ar y diwrnod y byddwch yn llofnodi'r contract.**

**Os na fyddwch yn llofnodi'r contract, neu os na fyddwch yn gwneud y pethau sydd wedi'u rhestru ynddo, mae'n bosibl y gelwir chi yn ôl i'r llys ac y rhoddir dedfryd wahanol i chi.**

**Rhaid i** [Nodwch enw/enwau'r rhiant/rhieni, gwarcheidwad/gwarcheidwaid, cynrychiolydd/cynrychiolwyr awdurdod lleol] **……… hefyd fynychu'r cyfarfodydd. Os nad ydynt yn mynychu, efallai y byddant yn gorfod dod yn ôl i'r Llys.**

**Bydd Tîm Troseddwyr Ifanc …………….. yn goruchwylio eich gorchymyn.**

**Rhaid i chi aros i gael copi o'r gorchymyn cyn i chi adael adeilad y llys.**

[Ystyriwch unrhyw orchmynion ategol.]

**Rhaid i chi hefyd dalu gordal o £...... Defnyddir yr arian hwn i ariannu gwasanaethau i ddioddefwyr**

**Ydych chi'n deall?**

## Atgyfeirio yn ôl i'r llys am beidio â chydymffurfio

**Cawsoch orchymyn atgyfeirio am gyfnod o .... mis ar ..... am y troseddau canlynol .... Fodd bynnag, rydych nawr yn ôl yn y llys oherwydd [ni wnaethoch lofnodi'r contract][ni wnaethoch beth a ofynnwyd i chi ei wneud][ni wnaethoch fynychu'r cyfarfodydd].**

Pan nad yw'r llys yn cymryd camau – **Y tro hwn, rydym wedi penderfynu peidio â chymryd camau ynghylch y ffaith [na wnaethoch chi lofnodi'r contract][na wnaethoch beth a ofynnwyd i chi ei wneud][na wnaethoch chi fynychu'r cyfarfodydd]. Mae hyn oherwydd ........................**

**Bydd y gorchymyn atgyfeirio yn parhau ac mae gennych ..... mis ar ôl dan y gorchymyn hwnnw. Mae angen i chi lynu wrth y contract a mynychu pob cyfarfod nes i'r gorchymyn ddod i ben.**

Pan fydd y llys yn diddymu ac yn ailddedfrydu - **Rydym wedi penderfynu y byddwn yn diddymu eich gorchymyn atgyfeirio a wnaethpwyd ar.........** [rhowch ddyddiad] **ac yn rhoi dedfryd newydd i chi.**

**Ar gyfer y trosedd(au) o ................ bydd y ddedfryd yn** [nodwch y ddedfryd newydd].

**Mae hyn oherwydd ........................**

**Ydych chi'n deall?**

Pan fydd y llys yn gorfodi dirwy – **Rydym wedi penderfynu delio â'r achos hwn o beidio â chydymffurfio â'r gorchymyn drwy orfodi dirwy o £……**

**Mae hyn oherwydd …………….**

**Wrth benderfynu ar y ddirwy hon, rydym wedi ystyried faint mae modd [i chi][i'ch rhiant/ gwarcheidwad] fforddio ei dalu.**

**Ydych chi'n deall?**

Pan fydd y llys yn rhoi estyniad ar orchymyn atgyfeirio – **Ar gyfer y trosedd(au) o …………….. rydym yn rhoi estyniad o ……… mis ar eich gorchymyn atgyfeirio a wnaethpwyd ar ……………..** [rhowch ddyddiad]**. Cyfnod newydd eich gorchymyn atgyfeirio yw ………… mis.**
**Mae hyn oherwydd …………..**

**Ydych chi'n deall?**

Ar gyfer pob datganiad pan fydd y gorchymyn atgyfeirio yn parhau am beidio â chydymffurfio – **Os na fyddwch yn gwneud y pethau a restrir yn y gorchymyn atgyfeirio, os na fyddwch yn mynychu cyfarfodydd, neu os byddwch yn cyflawni unrhyw droseddau pellach, byddwch yn cael eich galw yn ôl i'r llys a gellir delio â chi mewn ffordd arall.**

**Ydych chi'n deall?**

# Troseddau pellach wedi'u cyflawni tra oeddech dan orchymyn atgyfeirio (pryd bynnag y cyflawnir y trosedd)

**Rydych chi yma heddiw gan fod trosedd(au) pellach gerbron y llys** [nodwch y troseddau].

**Ar** [rhowch ddyddiad] **cawsoch orchymyn atgyfeirio yn para am gyfnod o …… mis ar gyfer y trosedd(au) o …….…..**

Pan fydd y llys yn rhoi estyniad ar orchymyn atgyfeirio – **Ar gyfer y trosedd(au) o …………….. rydym yn rhoi estyniad o ……… mis ar eich gorchymyn atgyfeirio a wnaethpwyd ar …………** [rhowch ddyddiad] **Cyfnod newydd eich gorchymyn atgyfeirio yw ………… ....... mis.**
**Mae hyn oherwydd …………..**

**Ydych chi'n deall?**

[Gweler cerdyn 7 os caiff yr unigolyn ei ryddhau'n ddiamod neu gorfodir amodau.]

## Gorchymyn atgyfeirio pellach wedi'i orfodi (pan fodlonir amodau dewisol)

**Rydym yn ymwybodol o …………**[rhowch fanylion y trosedd, person ifanc, teulu]**. Ar gyfer y troseddau pellach hyn, rydym wedi penderfynu rhoi gorchymyn atgyfeirio newydd i chi am gyfnod o ……. mis. Mae hyn yn ychwanegol at eich gorchymyn cyfredol. Bydd y gorchymyn newydd yn dechrau pan fydd y gorchymyn cyfredol yn dod i ben.**

**Mae'r gorchymyn atgyfeirio sydd gennych ar hyn o bryd yn dal yn weithredol. Mae disgwyl i chi barhau i wneud y pethau a restrir yn y gorchymyn hwnnw ac i fynychu cyfarfodydd nes iddo ddod i ben.**

**Ydych chi'n deall?**

**(Ar gyfer pob datganiad pan gyflawnir troseddau pellach)**

**Os na fyddwch yn gwneud y pethau a restrir yn y gorchymyn atgyfeirio, os na fyddwch yn mynychu cyfarfodydd, neu os byddwch yn cyflawni unrhyw droseddau pellach, byddwch yn cael eich galw'n ôl i'r llys a gellir delio â chi mewn ffordd arall.**

**Ydych chi'n deall**

## Gorchymyn gwneud iawn

- Ar gael ar gyfer pob unigolyn ifanc.
- Uchafswm o 24 awr dros gyfnod o dri mis.
- Rhaid i'r gwneud iawn sy'n ofynnol fod yn gymesur â difrifoldeb y trosedd. Rhoddir yr unigolyn ifanc dan oruchwyliaeth swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc gydol cyfnod y gorchymyn.
- Nid cosb gymunedol ydyw.
- Dylai'r llys bennu a ddylid gwneud yr iawn sy'n ofynnol:
  - i unigolyn/unigolion a bennir, neu
  - i'r gymuned yn gyffredinol.
- Rhaid i'r llys gael ac ystyried adroddiad ysgrifenedig cyn gwneud gorchymyn gwneud iawn.
- Ni ellir cyfuno Gorchymyn Gwneud Iawn â gorchymyn adsefydlu pobl ifanc neu orchymyn cadw dan glo a hyfforddi.

1. **Rydym yn mynd i wneud gorchymyn gwneud iawn yn eich achos chi am gyfnod o dri mis.**

**Byddwch yn cael eich rhoi dan oruchwyliaeth** [nodwch enw'r swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol].

**Mae'n rhaid i chi** [rhowch fanylion y gwneud iawn ac a ddylid gwneud yr iawn i unigolyn neu i'r gymuned].

**Gallwch chi neu'r swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc wneud cais i'r llys am adolygu'r gorchymyn.**

**Os byddwch yn torri unrhyw un o delerau'r gorchymyn, efallai y byddwch yn cael eich dwyn yn ôl i'r llys a gallem eich cosbi mewn ffordd arall. Gallwch chi neu eich swyddog ofyn i'r llys ailedrych ar y gorchymyn os bydd eich amgylchiadau'n newid.**

**Ydych chi'n deall?**

[Wrth y troseddwr a'r rhiant/gwarcheidwad.] **Oes gennych chi rywbeth i'w ddweud?**

**Felly rydym yn gwneud Gorchymyn Gwneud Iawn.**

**Rydym wedi lleihau'ch dedfryd oherwydd eich bod wedi pledio'n euog. Pe na baech wedi gwneud hynny, byddem wedi rhoi dedfryd o ……………………………… i chi**

**Ydych chi'n deall?**

[Ystyriwch unrhyw orchmynion ategol.]

2. **Er y gallem wneud gorchymyn gwneud iawn, rydym wedi penderfynu peidio â gwneud y fath orchymyn oherwydd …………** [rhowch fanylion].

## Gorchymyn adsefydlu ieuenctid (YRO)

- Yr unig orchymyn cymunedol sydd ar gael yn y llys ieuenctid am droseddau a gyflawnwyd ar neu ar ôl 30 Tachwedd 2009.
- Rhaid iddo gynnwys un neu fwy o 15 gofyniad.
- Rhaid i'r trosedd fod yn 'ddigon difrifol' i haeddu cosb gymunedol, ond nid oes angen iddo fod yn drosedd carcharol.
- Ni all llys bennu gorchymyn adsefydlu ieuenctid pan mae gorchymyn adsefydlu ieuenctid arall neu orchymyn gwneud iawn mewn grym oni bai ei fod yn diddymu'r gorchymyn cynharach.
- Nid oes cyfnod byrraf, ond rhaid i'r gorchymyn fod am 3 blynedd ar y mwyaf. Serch hynny, gellir atodi gofynion gwahanol i orchymyn ar gyfnodau gwahanol fel y nodir yn y gorchymyn. Rhaid i Orchymyn Adsefydlu Ieuenctid fod yr un hyd â'r gofyniad hiraf. Rhaid i ofyniad goruchwylio fod yr un fath â dyddiad terfynu'r gorchymyn.
- Cyn gwneud gorchymyn adsefydlu ieuenctid, rhaid i'r llys gael ac ystyried gwybodaeth am amgylchiadau teuluol y troseddwr ac effaith debygol gorchymyn o'r fath ar yr amgylchiadau hynny. Yn ogystal, rhaid i'r llys sicrhau bod unrhyw ofynion yn cydweddu â'i gilydd ac nad ydynt yn gwrthdaro â chredoau crefyddol y troseddwr, nac yn ymyrryd â'i addysg.

**Am y trosedd(au) o ……………………………rydym yn gwneud gorchymyn adsefydlu ieuenctid. Bydd hwn yn parhau am……………… mis tan ………………**[nodwch ddyddiad terfynu'r gorchymyn].

**Bydd yn rhaid i chi wneud y canlynol:**

[Nodwch eiriad y gofyniad unigol a ddangosir dros y dudalen, fel sy'n briodol.]

**Os byddwch yn torri unrhyw un/rai o'r gofynion, neu'n cyflawni trosedd arall tra bo'ch gorchymyn mewn grym, efallai y bydd yn rhaid i chi ddod yn ôl i'r llys a gallai'r llys hwnnw ddelio â chi mewn rhyw ffordd arall. Rhaid i chi ddweud wrth eich swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc a'r llys os byddwch yn newid eich cyfeiriad.**

**Os na allwch fynd i apwyntiadau oherwydd salwch, bydd eich swyddog cyfrifol angen gweld tystysgrif feddygol. Os na fyddwch chi'n darparu'r dystysgrif, byddwch yn torri rheolau'r gorchymyn hwn, ac efallai y byddwch yn cael eich dwyn yn ôl i'r llys.**

**Gallwch chi neu'ch swyddog ofyn i'r llys edrych eto ar y gorchymyn hwn os bydd eich amgylchiadau'n newid.**

**Rydym yn gwneud y gorchymyn hwn oherwydd bod y trosedd(au) yn ddigon difrifol i gyfiawnhau gorchymyn cymunedol ar ôl ystyried pob un o'r canlynol………**

[Gan ddefnyddio eich ffurflen ddedfrydu, nodwch eich rhesymau, gan gynnwys:

- Yr amgylchiadau gwaethygol neu liniarol sy'n pennu lefel y beiusrwydd a maint y niwed a achoswyd (trosedd).
- Lliniariad personol (troseddwr) y plentyn neu'r unigolyn ifanc.
- Y rhesymau dros wneud gofyniad triniaeth (angen cydsyniad).]

**Rydym wedi lleihau'ch dedfryd oherwydd eich bod wedi pledio'n euog. Pe na baech wedi gwneud hynny, byddem wedi rhoi dedfryd o ………………………………… i chi**

**Rhaid i chi hefyd dalu gordal o £...... Defnyddir yr arian hwn i ariannu gwasanaethau i ddioddefwyr.**

**Ydych chi'n deall?**

[Ystyriwch unrhyw orchmynion ategol.]

## Gofynion gorchymyn adsefydlu ieuenctid

1. Gweithgaredd – Mae'n rhaid i chi wneud …… diwrnod o weithgaredd [preswyl] yn unol â chyfarwyddyd eich swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc. Rhaid i hwn gael ei gwblhau erbyn ................ [rhowch ddyddiad].
2. Canolfan ymbresenoli – Rhaid ichi fynd i'r ganolfan ymbresenoli yn ………… Eich diwrnod cyntaf ar gyfer mynychu ydy………… Rhaid i chi gwblhau ...... awr ar y dyddiau y dywed y swyddog â gofal am y ganolfan wrthych am wneud. Rhaid i'r gofyniad hwn gael ei gwblhau erbyn ................ [rhowch ddyddiad].
3. Cyrffyw – Mae'n rhaid i chi aros yn y cyfeiriad a roddwyd rhwng ……. ar y diwrnodau canlynol ……………………. Bydd tag electronig yn cael ei osod gan y cwmni monitro yn eich cyfeiriad yn ystod oriau'r cyrffyw. Bydd y gorchymyn yn para am ……………..mis/wythnos/diwrnod am gyfnod o ………………….. [rhowch ddyddiad] Rhaid i chi beidio ag ymyrryd â'r tag na'r uned sylfaen.
4. Profi am gyffuriau – Rhaid i chi ddarparu samplau o leiaf ……... (g)waith y mis, yn unol â chyfarwyddyd eich [swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc] [darparwr triniaeth] am gyfnod o ………………….. [rhowch ddyddiad].
5. Triniaeth am gyffuriau – Bwriadwn i chi gael triniaeth [breswyl] [ddibreswyl] dan gyfarwyddyd o…………… am gyfnod o ……….tan ………… [rhowch ddyddiad]. Ydych chi'n cytuno i hyn?.
6. Gofyniad addysg – Byddwch yn dilyn trefniadau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer eich addysg tan………… [rhowch ddyddiad].

7. **Cau allan** – **Rhaid ichi beidio â mynd i ……………..[rhwng…….a……] am gyfnod o tan…………** [rhowch ddyddiad](Rhaid tagio lle mae cyfleusterau ar gael).

8. **Triniaeth am sylwedd meddwol** – **Bwriadwn i chi gael triniaeth dan gyfarwyddyd……………………….. am gyfnod o……………. tan…………** [rhowch ddyddiad]**. Ydych chi'n cytuno i hyn?**

9. **Preswylfan awdurdod lleol** – **Rhaid ichi fyw lle mae'r awdurdod lleol yn dweud wrthych fyw ynddo am y …………………mis nesaf tan…………** [rhowch ddyddiad]**.**

10. **Triniaeth iechyd meddwl** – **Byddwch yn cael triniaeth [breswyl] [ddibreswyl] dan gyfarwyddyd Dr…………… am gyfnod o…………. tan…………** [rhowch ddyddiad]**. Ydych chi'n cytuno i'r gofyniad hwn?**

11. **Rhaglen** – **Rhaid i chi gymryd rhan mewn set o weithgareddau wedi'u cynllunio pan ddywedir wrthych am wneud hynny gan eich goruchwyliwr am gyfnod o ………………..diwrnod, i'w gwblhau erbyn…………** [rhowch ddyddiad].

12. **Gweithgareddau gwaharddedig** – **Rydych wedi'ch gwahardd rhag ………. [am gyfnod o ………] [ ar y dyddiau canlynol …… ] tan…………** [rhowch ddyddiad]**.**

13. **Preswylio** – **Rhaid i chi fyw [yn] [gyda]……………tan…………** [rhowch ddyddiad]**.**

14. **Goruchwyliaeth** – **Byddwch o dan oruchwyliaeth swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc tan…………** [rhowch ddyddiad] **a bydd yn rhaid ichi ddilyn pob cyfarwyddyd a roddir ichi a chadw pob un o'ch apwyntiadau.**

15. **Gwaith di-dâl** – **Rhaid i chi wneud ………………… awr o waith di-dâl yn y gymuned yn unol â'r cyfarwyddiadau a gewch gan eich swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc yn ystod y 12 mis nesaf. Rhaid i'r gwaith di-dâl gael ei gwblhau erbyn ...............** [rhowch ddyddiad]**.**

## Gorchymyn adsefydlu ieuenctid gyda goruchwyliaeth a gwyliadwraeth dwys (YRO gyda ISS)

- Rhaid i'r trosedd fod yn drosedd carcharol a rhaid i'r llys fod o'r farn fod y trosedd yn un **mor ddifrifol** nes y byddai dedfryd o garchar yn briodol h.y. lle y gellid rhoi dedfryd o 4 mis o leiaf.
- Yn ogystal, os yw'r unigolyn ifanc dan 15 oed pan geir ef/hi yn euog, rhaid i'r llys fod yn fodlon ei fod yn droseddwr mynych.
- Ni ellir rhoi gorchymyn adsefydlu ieuenctid gyda goruchwyliaeth a gwyliadwraeth ddwys am gyfnod llai na 6 mis a gellir ei ymestyn am gyfnod o hyd at 3 blynedd. Serch hynny, gellir atodi gofynion gwahanol i'r gorchymyn ar gyfnodau gwahanol fel y nodir yn y gorchymyn.
- Rhaid i unrhyw weithgaredd fod am fwy na 90 diwrnod a dim mwy na 180 diwrnod.

**Mae'r trosedd(au) o ………………………… mor ddifrifol y gellid bod wedi rhoi dedfryd o garchar. Fodd bynnag, rydym yn gwneud gorchymyn adsefydlu ieuenctid gyda goruchwyliaeth a gwyliadwraeth ddwys.**

**Bydd hwn yn para am ……………………mis ac yn dod i ben ar ………….. Bydd yn rhaid i chi wneud y canlynol:**

1. Gweithgaredd estynedig **– Mae'n rhaid i chi wneud …… diwrnod o weithgaredd [preswyl] yn unol â chyfarwyddyd eich swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc. Rhaid i hwn gael ei gwblhau erbyn ...............** [rhowch ddyddiad]**.**
2. Cyrffyw **– Mae'n rhaid i chi aros yn y cyfeiriad a roddwyd rhwng …….…. ar y diwrnodau canlynol ……………………. Bydd tag electronig yn cael ei osod gan y cwmni monitro yn eich cyfeiriad yn ystod oriau'r cyrffyw. Bydd y gorchymyn yn para am……………..mis/wythnos/diwrnod tan……………** [rhowch ddyddiad]**. Rhaid i chi beidio ag ymyrryd â'r tag na'r uned sylfaen.**

3. **Goruchwyliaeth – Byddwch o dan oruchwyliaeth swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc tan……………** [rhowch ddyddiad] **a bydd yn rhaid ichi ddilyn pob cyfarwyddyd a roddir ichi a chadw pob un o'ch apwyntiadau.**

[Ychwanegwch unrhyw ofyniad ychwanegol fel sy'n briodol.]

**Os byddwch yn torri unrhyw un/rai o'r gofynion, neu'n cyflawni trosedd arall tra bo'ch gorchymyn mewn grym, efallai y bydd yn rhaid i chi ddod yn ôl i'r llys a gallai'r llys hwnnw ddelio â chi mewn rhyw ffordd arall. Rhaid i chi ddweud wrth eich swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc a'r llys os byddwch yn newid eich cyfeiriad.**

**Os na allwch fynd i apwyntiadau oherwydd salwch, bydd angen i'ch swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc weld tystysgrif feddygol. Os na fyddwch chi'n darparu'r dystysgrif, byddwch yn torri rheolau'r gorchymyn hwn, ac efallai y byddwch yn cael eich dwyn yn ôl i'r llys.**

**Gallwch chi neu'ch swyddog ofyn i'r llys edrych ar y gorchymyn hwn eto os bydd eich amgylchiadau'n newid.**

**Rydym yn gwneud y gorchymyn ar ôl ystyried y canlynol:**

[Gan ddefnyddio eich ffurflen ddedfrydu, nodwch eich rhesymau, gan gynnwys:

- Yr amgylchiadau gwaethygol neu liniarol sy'n pennu lefel y beiusrwydd a maint y niwed a achoswyd (trosedd).
- Lliniariad personol (troseddwr) y plentyn neu'r unigolyn ifanc.
- Rhesymau dros wneud gofyniad triniaeth (angen cydsyniad).]

[Lle bo hynny'n briodol.] **Rydym wedi lleihau'ch dedfryd oherwydd eich bod wedi pledio'n euog. Pe na baech wedi gwneud hynny, byddem wedi rhoi dedfryd o ………………………… i chi**

**Rhaid i chi hefyd dalu gordal o £…… Defnyddir yr arian hwn i ariannu gwasanaethau i ddioddefwyr**

**Ydych chi'n deall?**

## Gorchymyn adsefydlu ieuenctid gyda maethu

- Rhaid i'r trosedd fod yn drosedd carcharol a rhaid i'r llys fod o'r farn fod y trosedd yn un **mor ddifrifol** nes y byddai dedfryd o garchar yn briodol h.y. lle y gellid rhoi dedfryd o 4 mis o leiaf.
- Yn ogystal, os yw'r unigolyn ifanc dan 15 oed pan geir ef/hi yn euog, rhaid i'r llys fod yn fodlon ei fod/bod yn droseddwr mynych.
- Rhaid i gyfnod y gofyniad maethu ddod i ben ddim hwyrach na 12 mis ar ôl dyddiad y gorchymyn, ac ni all gynnwys unrhyw gyfnod ar ôl i'r troseddwr gyrraedd 18 oed.
- Rhaid i'r llys fod yn fodlon fod yr amgylchiadau roedd yr unigolyn ifanc yn byw ynddynt yn ffactor o bwys yn y trosedd, ac y byddai pennu gofyniad maethu o gymorth i adsefydlu'r unigolyn ifanc.

**Mae'r trosedd(au) o ………………………… mor ddifrifol y gellid bod wedi rhoi dedfryd o garchar. Fodd bynnag, rydym yn gwneud gorchymyn adsefydlu ieuenctid gyda maethu.**

**Bydd hwn yn para am …………………… mis ac yn dod i ben ar ………….. Bydd yn rhaid i chi wneud y canlynol:**

1. Maethu **– rhaid ichi fyw gyda rhiant maeth awdurdod lleol am y ……………. mis nesaf tan……………**[rhowch ddyddiad]**.**
2. Goruchwyliaeth **– Byddwch o dan oruchwyliaeth swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc tan……………** [rhowch ddyddiad] **a bydd yn rhaid ichi ddilyn pob cyfarwyddyd a roddir ichi a chadw pob un o'ch apwyntiadau.**

[Ychwanegwch unrhyw ofyniad ychwanegol fel sy'n briodol.]

**Os byddwch yn torri unrhyw un/rai o'r gofynion, neu'n cyflawni trosedd arall tra bo'ch gorchymyn mewn grym, efallai y bydd yn rhaid i chi ddod yn ôl i'r llys a gallai'r llys hwnnw ddelio â chi mewn rhyw ffordd arall. Rhaid i chi ddweud wrth eich swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc a'r llys os byddwch yn newid eich cyfeiriad.**

**Os na allwch fynd i apwyntiadau oherwydd salwch, bydd angen i'ch swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc weld tystysgrif feddygol. Os na fyddwch chi'n darparu'r dystysgrif, byddwch yn torri rheolau'r gorchymyn hwn, ac efallai y byddwch yn cael eich dwyn yn ôl i'r llys.**

**Gallwch chi neu'ch swyddog ofyn i'r llys edrych ar y gorchymyn hwn eto os bydd eich amgylchiadau'n newid.**

**Rydym yn gwneud y gorchymyn ar ôl ystyried y canlynol:**

[Gan ddefnyddio eich ffurflen ddedfrydu, nodwch eich rhesymau, gan gynnwys:

- Yr amgylchiadau gwaethygol neu liniarol sy'n pennu lefel y beiusrwydd a maint y niwed a achoswyd (trosedd).
- Lliniariad personol (troseddwr) y plentyn neu'r unigolyn ifanc.
- Rhesymau dros wneud gofyniad triniaeth (angen cydsyniad).]

[Lle bo hynny'n briodol.] **Rydym wedi lleihau'ch dedfryd oherwydd eich bod wedi pledio'n euog. Pe na baech wedi gwneud hynny, byddem wedi rhoi dedfryd o ......................... i chi**

**Rhaid i chi hefyd dalu gordal o £......... Defnyddir yr arian hwn i ariannu gwasanaethau i ddioddefwyr**

**Ydych chi'n deall?**

## Caniatáu gohiriad

**Rydym wedi ystyried y cais am ohirio'r achos hwn a'r rhesymau a roddwyd dros wneud hynny. Mae'r llys yn disgwyl gwneud cynnydd ym mhob gwrandawiad. Fodd bynnag, rydym yn barod i ganiatáu gohiriad er budd cyfiawnder oherwydd ……………** [rhowch fanylion].

**Caiff eich achos ei wrando ar ……** [nodwch y dyddiad a'r amser].

**Rhwng yn awr a'r gwrandawiad nesaf rydym yn disgwyl i'r canlynol ddigwydd ….** [rhowch fanylion].

**Caniateir ……** [nodwch fanylion y fechnïaeth].

## Gwrthod gohiriad

**Rydym wedi ystyried y cais am ohirio'r achos hwn a'r rhesymau a roddwyd dros wneud hynny. Mae'r llys yn disgwyl gwneud cynnydd ym mhob gwrandawiad. Nid ydym yn fodlon y dylid gohirio'r achos hwn oherwydd ...............** [rhowch fanylion].

[Enghreifftiau - amddiffyniad:

- Roeddech yn gwybod am y gwrandawiad beth amser yn ôl a dylech fod wedi trefnu cynrychiolaeth gyfreithiol erbyn hyn.
- Fe'ch cyhuddwyd yn y mater hwn ar [nodwch y dyddiad] a dylech fod mewn sefyllfa i gyflwyno ple heddiw.
- Nid oes gennych hawl i weld [unrhyw dystiolaeth] [tystiolaeth bellach] yn yr achos heb gyflwyno ple. Cyn cyflwyno ple, nid oes gennych hawl i weld achos yr erlyniad yn llawn. Os ydych am gyflwyno ple euog heddiw gyda'r posibilrwydd o gael rhywfaint o gredyd tuag at eich dedfryd, gallwch wneud hynny. Os nad ydych am wneud hynny, yna mae'n rhaid i chi bledio'n ddieuog a bydd y llys yn symud ymlaen i dreial.

Enghreifftiau - erlyniad:

- Rydych wedi cael [nodwch faint o amser] i baratoi'r papurau traddodi ac nid yw'n briodol i ohirio'r achos ymhellach.
- Rydych wedi cael [nodwch faint o amser] i adolygu'r ffeil. Rhaid gwneud penderfyniad heddiw.
- Nid yw'r [tystion] [diffynnydd] wedi mynychu'r treial ac nid ydynt wedi rhoi unrhyw reswm da dros beidio â bod yn bresennol. Nid yw'n briodol i ohirio'r mater ymhellach. Bydd yr achos yn mynd rhagddo heddiw.]

**Rydym yn mynd i ddelio â'ch achos heddiw.**

## Gohirio ar gyfer cael adroddiad cyflym

**Rydym yn rhoi eich achos o'r neilltu [tan …………….. am/pm heddiw] [tan …………..].**

**Mae'n rhaid i chi weld a chydweithredu â swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc a fydd yn paratoi adroddiad [ysgrifenedig] [llafar] byr a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i ni amdanoch, yn seiliedig ar ein hasesiad cychwynnol o ddifrifoldeb eich troseddu.**

- [Eglurwch eich asesiad ar sail y ffurflen gais am Adroddiad Cyn Dedfrydu a'r hyn rydych am i'r Tîm Troseddwyr Ifanc roi sylw iddo'n benodol yn yr adroddiad.
- Eglurwch mai asesiad o ddifrifoldeb dros dro yn unig ydyw ac nad yw'n rhwymo'r fainc nesaf. Mae'r holl ddewisiadau dedfrydu yn agored o hyd.
- Ymdriniwch â mechnïaeth fel sy'n briodol.]

## Gohirio ar gyfer cael adroddiad safonol

**Cyn i ni eich dedfrydu, mae angen i ni gael adroddiad gan y Tîm Troseddwyr Ifanc a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i ni amdanoch, yn seiliedig ar ein hasesiad cychwynnol o ddifrifoldeb eich troseddu. Caiff eich achos ei wrando ar ………………………..** [nodwch y dyddiad] **ac yn y cyfamser, mae'n rhaid i chi gydweithredu â'r Tîm Troseddwyr Ifanc er mwyn iddynt allu ysgrifennu'r adroddiad.**

- [Eglurwch eich asesiad ar sail y ffurflen gais am Adroddiad Cyn Dedfrydu a'r hyn rydych am i'r Tîm Troseddwyr Ifanc roi sylw iddo'n benodol yn yr adroddiad.
- Eglurwch mai asesiad o ddifrifoldeb dros dro yn unig ydyw ac nad yw'n rhwymo'r fainc nesaf. Mae'r holl ddewisiadau dedfrydu yn agored o hyd.
- Ymdriniwch â mechnïaeth fel sy'n briodol.]

## Mechnïaeth ddiamod

**Caniateir mechnïaeth ddiamod i chi i ymddangos gerbron y Llys hwn ar ………… am ……… am/pm. Os na ddowch chi'n ôl i'r llys ar y dyddiad a'r amser hwnnw, efallai y byddwch yn cyflawni trosedd. Gallech gael eich arestio, eich dirwyo neu eich anfon i'r ddalfa.**

**Os byddwch yn cyflawni trosedd a chithau ar fechnïaeth, byddwch yn derbyn dedfryd lymach.**

[Os yw'n berthnasol.] **Mae eich achos wedi'i restru ar gyfer treial y tro nesaf. Os na fyddwch yn bresennol neu'ch bod yn hwyr, efallai y bydd y treial yn mynd rhagddo heboch chi, oni bai na fyddai hynny er budd cyfiawnder.**

[Nodwch yr hyn sy'n rhaid digwydd yn y gwrandawiad nesaf a nodi unrhyw gyfarwyddiadau angenrheidiol i sicrhau y rheolir yr achos yn effeithiol.]

## Mechnïaeth amodol

**Caniateir mechnïaeth ag amodau i chi i ymddangos gerbron y Llys hwn ar ……….. am ……… am/pm. Os na ddowch chi'n ôl i'r llys ar y dyddiad a'r amser hwnnw, efallai y byddwch yn cyflawni trosedd. Gallech gael eich arestio, eich dirwyo neu eich anfon i'r ddalfa. Os byddwch yn cyflawni trosedd a chithau ar fechnïaeth, byddwch yn derbyn dedfryd lymach.**

[Os yw'n berthnasol.] **Mae eich achos wedi'i restru ar gyfer treial y tro nesaf. Os na fyddwch yn bresennol neu'ch bod yn hwyr, efallai y bydd y treial yn mynd rhagddo heboch chi, oni bai na fyddai hynny er budd cyfiawnder.**

**Rhaid i chi gydymffurfio â'r amodau canlynol. Os na fyddwch yn gwneud hynny, gallech gael eich arestio a'ch galw yn ôl i'r llys lle yr ailystyrir eich mechnïaeth.**

[Nodwch yn *union* beth yw'r amodau e.e.

- Preswylfan e.e byw a chysgu yn .....
- cyrffyw
- cyflwyno'i hun mewn gorsaf heddlu
- dim cyswllt â thystion a enwir (uniongyrchol a/neu anuniongyrchol)
- apwyntiadau â thîm ymyriadau cyffuriau.]

**Mae'r amodau hyn yn angenrheidiol i sicrhau:**

- **eich bod yn dod i'r llys** [a/neu]
- **nad ydych yn cyflawni troseddau ar fechnïaeth** [a/neu]
- **nad ydych yn ymyrryd â thystion** [a/neu]
- **eich bod yn mynychu eich apwyntiadau.**

[Nodwch yr hyn sy'n gorfod digwydd yn y gwrandawiad nesaf a gwnewch unrhyw gyfarwyddiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod yr achos yn cael ei reoli'n effeithiol.]

[Os yw'n berthnasol] **Credwn fod yr amodau hyn yn rhoi sylw i'r pryderon y mae'r erlyniad wedi tynnu ein sylw atynt.**

**Ydych chi'n deall?**

## Remandio i lety awdurdod lleol (RLALl)

- Ar gael ar gyfer pob unigolyn ifanc.
- Wrth wneud hyn, rydych yn gwrthod mechnïaeth. Cyn remandio'r unigolyn ifanc i lety awdurdod lleol, rhaid i'r llys ganfod eithriadau i'r 'hawl i gael mechnïaeth' dan y Ddeddf Mechnïaeth. Bydd gwahanol fathau o sail yn berthnasol, yn dibynnu ar y math o drosedd y cyhuddir yr unigolyn ifanc ohono.

## Remandio i lety awdurdod lleol (troseddau neillffordd/ditiadwy yn unig)

**Rydych yn cael eich remandio i lety awdurdod lleol tan ............. Tan hynny bydd ..........................................****....yn gyfrifol amdanoch/yn gofalu amdanoch** [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig].

**Nid ydym yn caniatáu mechnïaeth i chi oherwydd:**

1. **bod sail gref dros gredu'r canlynol:**

   **(a) na fyddech yn dod yn ôl i'r llys,** [a/neu]

   **(b) y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]

   **(c) y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]

2. **honnir y byddwch yn cyflawni trosedd ar fechnïaeth, oherwydd i'r trosedd hwn gael ei gyflawni ar fechnïaeth** [a/neu]
3. **eich bod wedi cael eich rhyddhau ar fechnïaeth amodol yn flaenorol ac nad ydych wedi glynu at yr amodau hynny** [a/neu]
4. **bod sail gref dros gredu y byddech yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i ........................**[rhowch fanylion person cysylltiedig] **ofni anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
5. **rydym wedi ein bodloni y dylid ei wrthod er eich lles chi eich hun** [a/neu]
6. **eich bod eisoes yn bwrw dedfryd dan glo** [a/neu]
7. **ein bod yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu a ellir eich rhyddhau ai peidio** [a/neu]

**8. dyma'r unig ffordd briodol o sicrhau y caiff adroddiad ei baratoi.**

**Rydym yn credu hyn oherwydd:**

**a. difrifoldeb y trosedd a sut yr ymdrinnir â chi am ei gyflawni** [a/neu]

**b. eich cofnod troseddol a'ch cefndir** [a/neu]

**c. y rhoddwyd mechnïaeth i chi o'r blaen ond na fu i chi ufuddhau** [a/neu]

**d. cryfder y dystiolaeth yn eich erbyn,** [a/neu]

**e. fe allech ymddwyn mewn ffordd a allai achosi neu wneud i ....................** [rhowch fanylion person cysylltiedig] **feddwl y gallech achosi niwed iddynt** [a/neu]

**f.** [unrhyw berson perthnasol arall - rhowch fanylion.]

**Rhaid i chi ddod yn ôl i'r llys ar ……………. am ........ am/pm.**

[Lle bo hynny'n berthnasol.] **Cewch eich remandio i lety awdurdod lleol dan yr amodau canlynol ……………**

[Nodwch yn *union* beth fydd yr amodau, e.e.

- byw yn y man y caiff ei gyfarwyddo i fyw ynddo gan y Tîm Troseddwyr Ifanc/awdurdod lleol
- ble na chânt fyw
- cyflwyno'i hun mewn gorsaf heddlu
- dim cyswllt â thystion
- unrhyw amod arall angenrheidiol.]

**Os byddwch yn torri unrhyw un o'r amodau, byddwch yn cael eich arestio ac yn gorfod dod yn ôl i'r llys a gallem benderfynu y dylech gael eich remandio i Lety Cadw Pobl Ifanc.**

## Remandio i lety awdurdod lleol (troseddau carchar diannod)

**Rydych yn cael eich remandio i lety awdurdod lleol tan ............. Tan hynny bydd ....................................... .......yn gyfrifol amdanoch/yn gofalu amdanoch** [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig]**.**

**Nid ydym yn caniatáu mechnïaeth i chi oherwydd:**

1. **bod sail gref dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd ar fechnïaeth, oherwydd i'r trosedd hwn gael ei gyflawni ar fechnïaeth** [a/neu]
2. **bod sail gref dros gredu y byddech yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i ........................**[rhowch fanylion person cysylltiedig] **ofni anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
3. **credwn na fyddwch yn dod yn ôl i'r llys oherwydd eich methiant blaenorol i wneud hynny** [a/neu]
4. **eich bod wedi eich rhyddhau ar fechnïaeth amodol yn flaenorol ac nad ydych wedi glynu at yr amodau hynny a bod gennym sail gref dros gredu:**

   **(a) na fyddech yn dod yn ôl i'r llys,** [a/neu]

   **(b) y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]

   **(c) y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]

5. **rydym wedi ein bodloni y dylid ei wrthod er eich lles chi eich hun** [a/neu]
6. **eich bod eisoes yn bwrw dedfryd dan glo** [a/neu]
7. **ein bod yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu a ellir eich rhyddhau.**

**Rhaid i chi ddod yn ôl i'r llys ar ……………. am ........am/pm .**

[Lle bo hynny'n berthnasol.] **Cewch eich remandio i lety awdurdod lleol dan yr amodau canlynol ……………**

[Nodwch yn *union* beth fydd yr amodau, e.e.
- byw yn y man y caiff ei gyfarwyddo i fyw ynddo gan y Tîm Troseddwyr Ifanc/awdurdod lleol
- ble na chânt fyw
- cyflwyno'i hun mewn gorsaf heddlu
- dim cyswllt â thystion
- unrhyw amod arall angenrheidiol.]

**Os byddwch yn torri unrhyw un o'r amodau, byddwch yn cael eich arestio ac yn gorfod dod yn ôl i'r llys a gallem benderfynu y dylech gael eich remandio i Lety Cadw Pobl Ifanc.**

## Remandio i lety awdurdod lleol (troseddau digarchar)

**Rydych yn cael eich remandio i lety awdurdod lleol tan ............. Tan hynny bydd ............................... ................yn gyfrifol amdanoch/yn gofalu amdanoch** [rhowch fanylion yr awdurdod]**.**

**Nid ydym yn caniatáu mechnïaeth i chi oherwydd:**

1. **credwn na fyddwch yn dod yn ôl i'r llys oherwydd eich methiant blaenorol i wneud hynny** [a/neu]
2. **eich bod wedi eich rhyddhau ar fechnïaeth amodol yn flaenorol ac nad ydych wedi glynu at yr amodau hynny a bod gennym sail gref dros gredu:**
   **(a) na fyddech yn dod yn ôl i'r llys,** [a/neu]
   **(b) y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   **(c) y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]
3. **eich bod wedi eich rhyddhau ar fechnïaeth amodol yn flaenorol ac nad ydych wedi glynu at yr amodau hynny a bod gennym sail gref dros gredu y byddech yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i ....................** [rhowch fanylion person cysylltiedig] **ofni anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
4. **rydym wedi ein bodloni y dylid ei wrthod er eich lles chi eich hun** [a/neu]

**5. eich bod eisoes yn bwrw dedfryd dan glo**.

**Rhaid i chi ddod yn ôl i'r llys ar …………….. am........am/pm.**

[os yw'n berthnasol.] **Cewch eich remandio i lety awdurdod lleol dan yr amodau canlynol ……………**

[Nodwch yn *union* beth fydd yr amodau, e.e.

- byw yn y man y caiff ei gyfarwyddo i fyw ynddo gan y Tîm Troseddwyr Ifanc/awdurdod lleol
- ble na chânt fyw
- cyflwyno'i hun mewn gorsaf heddlu
- dim cyswllt â thystion
- unrhyw amod arall angenrheidiol.]

**Os byddwch yn torri unrhyw rai o'r amodau, byddwch yn cael eich arestio ac yn gorfod dod yn ôl i'r llys.**

## Remandio i lety cadw pobl ifanc

- Gwrthod mechnïaeth yw hyn. Cyn cael eich remandio i lety cadw pobl ifanc rhaid i'r llys ganfod eithriadau i'r 'hawl i fechnïaeth' dan y Ddeddf Mechnïaeth. Mae gwahanol seiliau'n berthnasol, yn dibynnu ar y math o drosedd y cyhuddwyd yr unigolyn ifanc ohono.
- Gall llety cadw pobl ifanc fod yn gartref diogel i blant, uned hyfforddi ddiogel neu'n sefydliad i droseddwyr ifanc.
- Gall y llys wneud gorchymyn ar yr amod fod un o'r setiau o amodau canlynol yn berthnasol:

## Set gyntaf o amodau

1. Amod oedran – rhaid i'r plentyn fod rhwng 12 a 17 oed;
2. Amod trosedd – rhaid i'r trosedd fod yn drosedd treisgar neu rywiol, neu'n drosedd sydd â chosb o 14 mlynedd neu fwy o garchar yn achos oedolyn;
3. Amod angen – rhaid i'r llys fod o'r farn, wedi ystyried yr holl opsiynau o ran remandio'r plentyn, mai dim ond remandio'r plentyn i lety cadw pobl ifanc fyddai'n ddigonol er mwyn:
   a. amddiffyn y cyhoedd rhag marwolaeth neu niwed personol difrifol (corfforol neu seicolegol) o ganlyniad i droseddau pellach, neu
   b. atal y plentyn rhag cyflawni troseddau all arwain at ddedfryd o garchar;

4. Amod cyntaf neu ail o ran cynrychiolaeth gyfreithiol - Yr amod cyntaf yw bod gan y plentyn gynrychiolaeth gyfreithiol. Os nad oes ganddo, mae'n ddigonol bodloni'r ail amod os oedd gan y plentyn gynrychiolaeth bod fod y gynrychiolaeth wedi'i thynnu'n ôl (oherwydd ymddygiad y plentyn neu eu hadnoddau ariannol), neu os gwnaeth y plentyn gais am gynrychiolaeth a gafodd ei wrthod (ar sail adnoddau ariannol), neu os oedd y plentyn (wedi iddo gael ei hysbysu am yr hawl i wneud cais am gynrychiolaeth) wedi gwrthod neu fethu â gwneud cais.

## Ail set o amodau

1. Amod oedran – rhaid i'r plentyn fod rhwng 12 a 17 oed;
2. Amod dedfrydu – rhaid iddi ymddangos i'r llys fod posibilrwydd gwirioneddol o ddedfryd dan glo am y trosedd;
3. Amod trosedd – rhaid i'r trosedd fod yn un carcharol;
4. Amod hanes cyntaf neu ail - Yr amod hanes cyntaf yw bod gan y plentyn hanes diweddar o ddianc tra'n destun remand dan glo a bod y trosedd neu yr honnir bod y trosedd (neu un neu fwy ohonynt) wedi ei gyflawni tra bod y plentyn wedi'i remandio i lety awdurdod lleol neu lety cadw pobl ifanc.
   Yr ail amod hanes yw bod y trosedd ynghyd ag unrhyw droseddau carcharol eraill y mae'r plentyn wedi'i gael yn euog ohonynt mewn unrhyw achos yn gyfystyr, neu y byddent, pe byddai'r plentyn wedi'i gael yn euog o'r trosedd hwnnw neu'r troseddau hynny, yn gyfystyr â hanes diweddar o gyflawni trosedd carcharol tra ar fechnïaeth neu tra'n destun remand dan glo;
5. Amod angen – gweler cerdyn 47;
6. Amod cynrychiolaeth gyfreithiol cyntaf neu ail – gweler cerdyn 47.

## Remandio i lety cadw pobl ifanc set 1af o amodau (pobl ifanc 12-17 oed, troseddau neillffordd/ditiadwy yn unig)

**Rydych yn cael eich remandio i lety cadw pobl ifanc tan .............. Tan hynny bydd ................................. ............yn gyfrifol amdanoch/yn gofalu amdanoch** [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig].

**Nid ydym yn caniatáu mechnïaeth i chi oherwydd:**

1. **bod sail gref dros gredu'r canlynol:**
   **(a) na fyddech yn dod yn ôl i'r llys** [a/neu]
   **(b) y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   **(c) y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]

2. **honnir y byddwch yn cyflawni trosedd ar fechnïaeth, oherwydd i'r trosedd hwn gael ei gyflawni ar fechnïaeth** [a/neu]

3. **eich bod wedi cael eich rhyddhau ar fechnïaeth amodol yn flaenorol ac nad ydych wedi glynu at yr amodau hynny** [a/neu]

4. **bod sail gref dros gredu y byddech yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i ........................**[rhowch fanylion person cysylltiedig] **ofni anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]

5. **rydym wedi ein bodloni y dylid ei wrthod er eich lles chi eich hun** [a/neu]

6. **eich bod eisoes yn bwrw dedfryd dan glo** [a/neu]

7. **ein bod yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu a ellir eich rhyddhau ai peidio** [a/neu]

8. **dyma'r unig ffordd briodol o sicrhau y caiff adroddiad ei baratoi.**

**Rydym yn credu hyn oherwydd:**

a. **difrifoldeb y trosedd a sut yr ymdrinnir â chi am ei gyflawni** [a/neu]

b. **eich cofnod troseddol a'ch cefndir** [a/neu]

c. **y rhoddwyd mechnïaeth i chi o'r blaen ond na fu i chi ufuddhau** [a/neu]

d. **cryfder y dystiolaeth yn eich erbyn** [a/neu]

e. **fe allech ymddwyn mewn ffordd a allai achosi neu wneud i ....................** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **feddwl y gallech achosi niwed iddynt** [a/neu]

f. [unrhyw unigolyn perthnasol arall - rhowch fanylion.]

**Rydych wedi eich cyhuddo o drosedd [difrifol] [treisgar] [rhywiol].**

**Mae remand i lety cadw pobl ifanc yn angenrheidiol [i amddiffyn y cyhoedd rhag marwolaeth neu niwed difrifol gennych [i'ch atal rhag cyflawni troseddau carcharol] oherwydd ...........**

## Remand i lety cadw pobl ifanc 2il set o amodau (pobl ifanc 12-17 oed, troseddau neillffordd/ditiadwy yn unig)

**Rydych yn cael eich remandio i lety awdurdod lleol tan .............. Tan hynny bydd ....................**
**..........................yn gyfrifol amdanoch/yn gofalu amdanoch** [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig].

**Nid ydym yn caniatáu mechnïaeth i chi oherwydd:**

1. **bod sail gref dros gredu'r canlynol:**
   **(a) na fyddech yn dod yn ôl i'r llys** [a/neu]
   **(b) y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   **(c) y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]
2. **honnir y byddwch yn cyflawni trosedd ar fechnïaeth, oherwydd i'r trosedd hwn gael ei gyflawni ar fechnïaeth** [a/neu]
3. **eich bod wedi cael eich rhyddhau ar fechnïaeth amodol yn flaenorol ac nad ydych wedi glynu at yr amodau hynny** [a/neu]
4. **bod sail gref dros gredu y byddech yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i ........................**[rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
5. **rydym wedi ein bodloni y dylid ei wrthod er eich lles chi eich hun** [a/neu]
6. **eich bod eisoes yn bwrw dedfryd dan glo** [a/neu]

7. ein bod yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu a ellir eich rhyddhau ai peidio [a/neu]
8. dyma'r unig ffordd briodol o sicrhau y caiff adroddiad ei baratoi.

Rydym yn credu hyn oherwydd:

a. difrifoldeb y trosedd a sut yr ymdrinnir â chi am ei gyflawni [a/neu]

b. eich cofnod troseddol a'ch cefndir [a/neu]

c. y rhoddwyd mechnïaeth i chi o'r blaen ond na fu i chi ufuddhau [a/neu]

d. cryfder y dystiolaeth yn eich erbyn [a/neu]

e. fe allech ymddwyn mewn ffordd a allai achosi neu wneud i .................... [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] feddwl y gallech achosi niwed iddynt [a/neu]

f. [unrhyw unigolyn perthnasol arall - rhowch fanylion.]

Rydych wedi eich cyhuddo o drosedd sy'n cario dedfryd dan glo ac rydym yn fodlon fod posibilrwydd gwirioneddol y byddwch yn derbyn dedfryd o'r fath.

Mae gennych hanes diweddar o ddianc tra'n destun remand dan glo a honnir y cyflawnwyd y trosedd hwn tra yr oeddech ar remand o'r fath. [a/neu] Mae'r trosedd hwn, ynghyd ag eraill y cafwyd chi'n euog ohonynt, yn dangos hanes diweddar o gyflawni troseddau carcharol tra ar fechnïaeth neu tra'n destun remand dan glo oherwydd .....................

Mae remand i lety cadw pobl ifanc yn angenrheidiol [i amddiffyn y cyhoedd rhag marwolaeth neu niwed difrifol gennych] [i'ch atal rhag cyflawni troseddau carcharol pellach oherwydd ...............

## Remandio i lety cadw pobl ifanc set 1af o amodau (pobl ifanc 12-17 oed, troseddau carchar diannod)

**Rydych yn cael eich remandio i lety cadw pobl ifanc tan .............. Tan hynny bydd ................... ...........................yn gyfrifol amdanoch/yn gofalu amdanoch** [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig].

**Nid ydym yn caniatáu mechnïaeth i chi oherwydd:**

1. **bod sail gref dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd ar fechnïaeth, oherwydd i'r trosedd hwn gael ei gyflawni ar fechnïaeth** [a/neu]
2. **bod sail gref dros gredu y byddech yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i .........................**[rhowch fanylion unigolyn cysylltiedig] **ofni anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
3. **credwn na fyddwch yn dod yn ôl i'r llys oherwydd eich methiant blaenorol i wneud hynny** [a/neu]
4. **eich bod wedi eich rhyddhau ar fechnïaeth amodol yn flaenorol ac nad ydych wedi glynu at yr amodau hynny a bod gennym sail gref dros gredu:**
   **(a) na fyddech yn dod yn ôl i'r llys** [a/neu]
   **(b) y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   **(c) y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]

5. rydym wedi ein bodloni y dylid ei wrthod er eich lles chi eich hun [a/neu]
6. eich bod eisoes yn bwrw dedfryd dan glo [a/neu]
7. ein bod yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu a ellir eich rhyddhau.

**Rydych wedi eich cyhuddo o drosedd [difrifol] [treisgar] [rhywiol].**

**Mae remandio i lety cadw pobl ifanc yn angenrheidiol [i amddiffyn y cyhoedd rhag marwolaeth neu niwed difrifol gennych] [i'ch atal rhag cyflawni troseddau carcharol pellach] oherwydd……………**

## Remandio i lety cadw pobl ifanc 2il set o amodau (pobl ifanc 12-17 oed, troseddau carchar diannod)

**Rydych yn cael eich remandio i lety cadw pobl ifanc tan .............. Tan hynny bydd .............................. .................yn gyfrifol amdanoch/yn gofalu amdanoch** [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig].

**Nid ydym yn caniatáu mechnïaeth i chi oherwydd:**

1. **bod sail gref dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd ar fechnïaeth, oherwydd i'r trosedd hwn gael ei gyflawni ar fechnïaeth** [a/neu]
2. **bod sail gref dros gredu y byddech yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i .........................**[rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
3. **credwn na fyddwch yn dod yn ôl i'r llys oherwydd eich methiant blaenorol i wneud hynny** [a/neu]
4. **eich bod wedi cael eich rhyddhau ar fechnïaeth amodol yn flaenorol ac nad ydych wedi glynu at yr amodau hynny a bod gennym sail gref dros gredu'r canlynol:**

   **(a) na fyddech yn dod yn ôl i'r llys** [a/neu]

   **(b) y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]

   **(c) y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]

5. **rydym wedi ein bodloni y dylid ei wrthod er eich lles chi eich hun** [a/neu]
6. **eich bod eisoes yn bwrw dedfryd dan glo** [a/neu]
7. **ein bod yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu a ellir eich rhyddhau.**

**Rydych wedi eich cyhuddo o drosedd sy'n cario dedfryd dan glo ac rydym yn fodlon fod posibilrwydd gwirioneddol y byddwch yn derbyn dedfryd o'r fath.**

**Mae gennych hanes diweddar o ddianc tra'n destun remand dan glo a honnir y cyflawnwyd y trosedd hwn tra yr oeddech ar remand o'r fath.** [a/neu] **Mae'r trosedd hwn, ynghyd ag eraill y cafwyd chi'n euog ohonynt, yn dangos hanes diweddar o gyflawni troseddau carcharol tra ar fechnïaeth neu tra'n destun remand dan glo oherwydd …………………**

**Mae remand i lety cadw pobl ifanc yn angenrheidiol [i amddiffyn y cyhoedd rhag marwolaeth neu niwed difrifol gennych] [i'ch atal rhag cyflawni troseddau carcharol pellach] oherwydd ……………**

## Anfon am dreial

**Rydych wedi eich cyhuddo o .............** [rhowch y trosedd(au)].

**Dim ond Llys y Goron all ymdrin â hyn oherwydd ...** [rhowch reswm/rhesymau].

**Rydych felly yn cael eich anfon i Lys y Goron yn ...............** [nodwch pa Lys y Goron] **ar gyfer treial ar ........** [nodwch ddyddiad y gwrandawiad].

**Yn y cyfamser rydych .....** [rhowch fanylion y remand].

## Penderfyniad trosedd difrifol (pobl ifanc 10 -11 oed a phobl ifanc 12 – 14 oed nad ydynt yn droseddwyr mynych)

### Anfon am dreial (arwydd o bledio'n ddieuog neu ddim ple yn cael ei ddatgan)

**Fe'ch cyhuddir o …..** [nodwch y trosedd(au)].

**Gan ystyried difrifoldeb y trosedd(au), rydym wedi penderfynu y dylai Llys y Goron ymdrin â'ch achos. Er gwaethaf eich oedran, rydym yn ystyried y mater yn un mor ddifrifol, pe byddech yn eich cael yn euog o'r trosedd hwn, fod dedfryd o dros ddwy flynedd dan glo yn bosibilrwydd cryf** [rhowch resymau dros hyn].

**Rydych felly yn cael eich anfon i Lys y Goron yn ……………** [nodwch pa Lys y Goron] **ar gyfer treial ar ……..** [nodwch ddyddiad y gwrandawiad].

**Yn y cyfamser, rydych …..** [rhowch fanylion y remand].

# Penderfyniad trosedd difrifol (pobl ifanc 12 – 14 oed sy'n droseddwyr mynych a phobl ifanc 15 - 17 oed)

## Anfon am dreial (arwydd o bledio'n ddieuog neu ddim ple yn cael ei ddatgan)

**Fe'ch cyhuddir o …..** [nodwch y trosedd(au)].

**O gofio difrifoldeb y trosedd(au), rydym wedi penderfynu y dylid delio â chi yn Llys y Goron. Er gwaethaf eich oed, ystyriwn fod y mater hwn yn fater mor ddifrifol nes y dylai bod dedfryd o gryn dipyn yn fwy na dwy flynedd dan glo ar gael** [rhowch resymau dros y farn hon].

**Rydych felly yn cael eich anfon i Lys y Goron yn ……………** [nodwch pa Lys y Goron] **ar gyfer treial ar ……..** [nodwch ddyddiad y gwrandawiad].

**Yn y cyfamser, rydych …..** [rhowch fanylion y remand].

## Penderfyniad trosedd difrifol
## (pobl ifanc 10-11 a phobl ifanc 12-14 oed nad ydynt yn droseddwyr mynych)

### Traddodi ar gyfer dedfryd (arwydd o bledio'n euog neu'n dilyn dedfryd yn y llys ieuenctid)

**Rydych wedi [pledio'n euog i][eich cael yn euog o …..** [rhowch y trosedd(au)].

**Gan ystyried difrifoldeb y trosedd(au), rydym wedi penderfynu y dylech gael eich dedfrydu gan Lys y Goron. Er gwaethaf eich oedran, rydym yn ystyried y mater yn un mor ddifrifol fod dedfryd o dros ddwy flynedd dan glo yn bosibilrwydd cryf** [rhowch resymau dros hyn].

**Rydych felly yn cael eich traddodi i Lys y Goron yn …….** [nodwch pa Lys y Goron] **ar gyfer dedfryd ar [ddyddiad ac amser a bennir gan Lys y Goron]** [neu nodwch ddyddiad y gwrandawiad].

**Yn y cyfamser rydych …..** [rhowch fanylion y remand].

# Penderfyniad trosedd difrifol (pobl ifanc 12-14 oed sy'n droseddwyr mynych a phobl ifanc 15-17 oed)

## Traddodi ar gyfer dedfryd (arwydd o bledio'n euog neu'n dilyn dedfryd yn y llys ieuenctid)

**Rydych wedi [pledio'n euog i] [eich cael yn euog o ] …..** [rhowch y trosedd(au)].

**Gan ystyried difrifoldeb y trosedd(au), rydym wedi penderfynu y dylech gael eich dedfrydu gan Lys y Goron. Er gwaethaf eich oedran, rydym yn ystyried y mater yn un mor ddifrifol fod dedfryd sylweddol fwy na dwy flynedd dan glo yn bosibilrwydd cryf** [rhowch resymau dros hyn].

**Yr ydych felly yn cael eich traddodi i Lys y Goron yn ………** [nodwch pa Lys y Goron] **ar gyfer dedfryd ar [ddyddiad ac amser a bennir gan Lys y Goron]** [neu nodwch ddyddiad y gwrandawiad].

**Yn y cyfamser rydych …..** [rhowch fanylion y remand].

## Troseddwyr peryglus - anfon am dreial

**Rydych wedi eich cyhuddo o …..** [nodwch y trosedd treisgar neu rywiol penodedig].

**Os ceir chi'n euog o'r trosedd hwn, credwn eich bod yn peri risg sylweddol o niwed difrifol i'r cyhoedd drwy gyflawni troseddau [treisgar] [rhywiol] oherwydd ………..** [rhowch resymau].

**Credwn hefyd y byddai dedfryd estynedig o 4 mlynedd o leiaf dan glo yn briodol oherwydd ………..** [rhowch resymau].

**Rydych felly yn cael eich anfon i Lys y Goron ………** [nodwch pa Lys y Goron] **ar gyfer treial ar ………** [rhowch ddyddiad y gwrandawiad].

**Yn y cyfamser rydych …..** [rhowch fanylion y remand].

## Troseddwyr peryglus - traddodi ar gyfer dedfryd

**Rydych wedi [pledio'n euog i][eich cael yn euog o] …..** [nodwch y trosedd treisgar neu rywiol penodedig].

**Credwn eich bod yn peri risg sylweddol o niwed difrifol i'r cyhoedd drwy gyflawni troseddau [treisgar] [rhywiol] pellach oherwydd ………..** [rhowch resymau sy'n arbennig i'r troseddwr].

**Credwn hefyd y byddai dedfryd estynedig o 4 mlynedd o leiaf dan glo yn briodol oherwydd ………..** [rhowch resymau sy'n berthnasol i'r trosedd].

**Rydych felly yn cael eich anfon i Lys y Goron ………** [nodwch pa Lys y Goron] **ar gyfer treial ar ………** [rhowch ddyddiad y gwrandawiad].

**Yn y cyfamser rydych …..** [rhowch fanylion y remand].

## Cyfyngiadau adrodd ar gyfer plant a phobl ifanc mewn achosion di-droseddol (A.39 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933)

**Rydym yn gorchymyn nad oes hawl cyhoeddi unrhyw fanylyn a allai ddatgelu pwy yw'r [diffynnydd] [dioddefwr honedig] [tyst]. Mae hyn yn cynnwys enw'r unigolyn, ei gyfeiriad, ei ysgol, ei sefydliad addysgol, ei weithle neu unrhyw beth arall a allai ddatgelu pwy yw'r unigolyn, gan gynnwys unrhyw lun llonydd neu symudol ohono.**

**Mae'r cyfyngiad cyhoeddi yn cynnwys unrhyw gyfrwng print neu ddarlledu ynghyd â gwybodaeth a gyhoeddir ar-lein gan gynnwys safleoedd cyfryngau cymdeithasol, megis Facebook a Twitter.**

**Rydym yn gorfodi'r cyfyngiad hwn oherwydd ……………………………………..**

**Bydd y gorchymyn hwn yn weithredol nes bod yr unigolyn dan sylw yn 18 oed neu gwneir gorchymyn arall.**

**Mae torri'r gorchymyn yn drosedd.**

## Cyfyngiadau adrodd oes ar gyfer dioddefwyr a thystion o dan 18 oed (A.45A Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999)

Rydym yn gorchymyn nad oes hawl cyhoeddi unrhyw fanylyn a allai ddatgelu pwy yw'r [dioddefwr honedig] [tyst]. Mae hyn yn cynnwys enw'r unigolyn, ei gyfeiriad, ei ysgol, ei sefydliad addysgol, ei weithle neu unrhyw beth arall a allai ddatgelu pwy yw'r unigolyn, gan gynnwys unrhyw lun llonydd neu symudol ohono.

Mae'r cyfyngiad cyhoeddi yn cynnwys unrhyw gyfrwng print neu ddarlledu ynghyd â gwybodaeth a gyhoeddir ar-lein gan gynnwys safleoedd cyfryngau cymdeithasol, megis Facebook a Twitter.

Rydym o'r farn y byddai'r ofn neu'r trallod a achosir i'r unigolyn dan sylw drwy ddatgelu pwy yw'r person i'r cyhoedd yn debygol o leihau ansawdd ei dystiolaeth neu lefel ei gydweithrediad yn yr achoss.

Rydym yn gorfodi'r cyfyngiad hwn oherwydd ………………………………………..

Bydd y gorchymyn yn weithredol am oes yr unigolyn dan sylw.

Mae torri'r gorchymyn yn drosedd.

## Codi cyfyngiadau adrodd

**Fel arfer yn y llys hwn, ni chaniateir cyhoeddi unrhyw fanylion a allai ddatgelu pwy yw'r unigolyn ifanc.**

**Fodd bynnag, rydych wedi eich cael yn euog o …..** [rhowch fanylion].

**Mae'r llys wedi gwrando ar sylwadau gan …..** [rhowch fanylion].

**Mae'r llys wedi penderfynu ei fod er budd y cyhoedd i godi [y cyfan] [rhan] o'r cyfyngiadau arferol oherwydd …..** [rhowch resymau].

[Ceisiwch gymorth cyfreithiol bob amser cyn codi cyfyngiadau adrodd]